## 4 DADANSODDI ACHOSION

***PA FFACTORAU SY'N RHAID YMDRIN Â HWY ER MWYN PONTIO'R BWLCH A CHYFLAWNI AMCANION Y PROJECT?***

Mae'r dadansoddiad achosion yn elfen allweddol o'r fethodoleg gan y bydd yn eich cynorthwyo i benderfynu pam bod y bylchau mewn perfformiad yn bodoli a bydd yr adran hon hefyd yn eich cynorthwyo i nodi ac ymchwilio i'r rhwystrau. Bydd y rhain yn cynnwys ffactorau'n ymwneud â phobl a phrosesau. Mae'r dadansoddiad achosion yn eich annog i wahanu'r ddwy elfen, ond fe welwch y bydd llawer o'r ffactorau yn gydberthynol. Nod yr adran hon yw chwilio am achosion sylfaenol y 'bwlch' a'ch cynorthwyo i wneud y canlynol:

- Nodi meysydd na fyddech wedi eu hystyried fel arall o bosib.
- Peidiwch â rhagdybio'r achosion sylfaenol.
- Rhowch gymorth gyda'r gwaith o ddatblygu achos busnes gwybodus i'r project.
- Rhowch gymorth gyda'r gwaith o flaenoriaethu'r camau sy'n angenrheidiol i ymdrin ag amcanion y project.

| | |
|---|---|
| **POBL** | Mae hyn yn gofyn am ddadansoddiad o'r holl faterion sy'n gysylltiedig â phobl sy'n cyfrannu at y bwlch mewn perfformiad.<br>**Rhai cwestiynau i'w hystyried:**<br>• A oes gan y staff y sgiliau a'r wybodaeth angenrheidiol i ymgymryd â'r gwaith angenrheidiol?<br>• Beth yw'r bylchau penodol mewn sgiliau a gwybodaeth?<br>• Beth yw'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau yng nghyd-destun y project hwn ac a oes unrhyw fylchau?<br>• A oes gan staff yr adnoddau angenrheidiol i wneud y gwaith?<br>• A oes unrhyw broblemau capasiti - o ran ymdrin â galwadau eraill yn y gwaith?<br>• A fydd y staff yn cyflawni'r ddyletswydd yn rheolaidd neu o bryd i'w gilydd?<br>• A gymerwyd amser i rwystro'r broblem rhag effeithio ar ddyletswyddau eraill?<br>• A oes problemau tîm fydd yn rhwystro cynnydd y project?<br>• A fydd y lefelau presennol o gymhelliant ac ymddygiad yn cefnogi'r newid?<br>• A oes problemau unigol fydd yn rhwystro cynnydd y project? |
| **PROSESAU** | Mae hyn yn gofyn am ddadansoddiad o'r holl faterion sy'n gysylltiedig â phrosesau sy'n cyfrannu at y bwlch mewn perfformiad.<br><br>**Rhai cwestiynau i'w hystyried:**<br>• Beth yw'r tagfeydd?<br>• Pa mor effeithlon yw'r adnoddau cefnogi?<br>• A yw'r gweithdrefnau a'r prosesau wedi eu diffinio'n dda? |

| | |
|---|---|
| | • Pa wybodaeth oedd yn anodd ei chael/ei chael mewn pryd?<br>• Pa seilwaith sefydliadol sy'n cefnogi'r gweithgaredd hwn?<br>• A yw'r elfennau o seilwaith TG wedi eu hintegreiddio'n dda? |

| **ADNODDAU DADANSODDI DEFNYDDIOL:** |
|---|
| Technegau syniadaeth ddarbodus<br>Dadansoddi cadwyn werthoedd<br>Dadansoddi anghenion hyfforddi |